



Cynllun Busnes 2026

Ein ffocws yn 2026

Mae'r cynllun busnes hwn yn sail i'n strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2026-2030, yr ail o ddwy strategaeth er mwyn cyflawni ein [gweledigaeth ar gyfer 2030](#). Mae'n amlinellu ein prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod, er ein bod yn disgwyl i'r rhain ddatblygu. Mae tirwedd rheoleiddio gofal iechyd yn trawsnewid yn gyflym, ac mae'n bwysig ein bod yn parhau i fod yn ymatebol, yn hyblyg, ac ar flaen y gad o ran newid.

Mae ein swyddogaethau rheoleiddio wrth galon yr hyn rydym yn ei wneud:

- gosod y safonau gofal cleifion ac ymddygiad proffesiynol y mae angen i feddygon, cymdeithion meddygol, a chymdeithion anaesthesia eu bodloni
- sicrhau bod meddygon, cymdeithion meddygol, a chymdeithion anaesthesia yn cael yr addysg a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal da a diogel i gleifion
- cadarnhau pwy sy'n gymwys i weithio fel meddygon, cymdeithion meddygol, a chymdeithion anaesthesia yn y Deyrnas Unedig, a sicrhau eu bod yn parhau drwy gydol eu gyrfaedd i fodloni'r safonau proffesiynol a osodwyd gennym
- rhoi arweiniad a chyngor i helpu meddygon, cymdeithion meddygol, a chymdeithion anaesthesia i ddeall yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt
- ymchwilio i bryderon bod diogelwch cleifion, neu hyder y cyhoedd
- mewn meddygon, mewn perygl, a chymryd camau os oes angen.

Bydd diwygio rheoleiddio hefyd yn brif flaenoriaeth i ni ar gyfer 2026 a'r tu hwnt. Mae'n gyfle unigryw i drawsnewid gwaith rheoleiddio a moderneiddio ein prosesau, i'w gwneud yn gyflymach, yn fwy hyblyg, ac yn fwy cefnogol a thosturiol o feddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia, a chleifion. Bydd hyn yn newid yn sylfaenol sut rydym yn gwneud pethau, a rhaid i ni fod yn barod i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, adleoli adnoddau, ac ailflaenoriaethu gweithgareddau lle bo angen.

Mae ein proses adolygu a chynllunio busnes chwarterol yn ein helpu i ailasesu ein blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn ac os bydd angen i ni wneud mwy o waith strategol arall, byddwn yn gwneud hynny. Byddwn hefyd yn parhau i fod yn sensitif i anghenion y system ehangach. Mae hyn yn golygu efallai y byddwn yn canolbwyntio mwy ar rai themâu strategol nag eraill ar wahanol adegau, ond byddwn yn cydbwysu hyn dros gyfnod ein strategaeth.

Rydym yn adrodd ar ein cynnydd o ran cyflawni ein cynllun busnes i'n Cyngor drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal ag yn ein [hadroddiad blynyddol](#). Mae'r diweddariadau ar gael ar ein [gwefan](#).

Ein gwaith mewn rhifau

Yn 2026, mewn perthynas â meddygon, rydym yn disgwyl gwneud y canlynol:

- prosesu tua **67,000** o argymhellion aiddilysu
- cefnogi tua **22,000** o bobl sy'n gwneud cais am y tro cyntaf i ymuno â chofrestr y Deyrnas Unedig
- adolygu tua **16,600** o bryderon a godwyd gyda ni
- cymryd camau pellach mewn ymateb i bryderon drwy gynnal oddeutu **300** o wrandawiadau'r MPTS
- ymweld â **15** o ysgolion meddygol newydd neu raglenni meddygol newydd, a defnyddio ein proses sicrhau ansawdd ragweithiol i adolygu **15** o sefydliadau hyfforddi ôl-raddedigion, a **42** o ysgolion meddygol sefydledig
- adolygu **106** o gwricwla ôl-raddedig a'u rhaglenni asesu i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i fodloni ein safonau
- ymateb i oddeutu **570** o ymholiadau moesegol mewn perthynas â'n safonau proffesiynol
- cynnal dros **1,000** o ddigwyddiadau, gan ymgysylltu â thros **45,000** o feddygon a myfyrwyr
- cynnal dros **150** o ddigwyddiadau Croeso i Ymarfer yn y Deyrnas Unedig, ac wrth wneud hynny, cefnogi dros **11,250** o raddedigion meddygol rhyngwladol sy'n newydd i ymarfer yn y Deyrnas Unedig
- cysylltu â **73,000** o hyfforddeion a **65,000** o hyfforddwyr i ddeall eu barn ar hyfforddiant, ac ar ansawdd addysg feddygol i raddedigion drwy ein harolwg hyfforddiant cenedlaethol.

Rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia

Byddwn yn paratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, pan fydd cofrestru ar gyfer cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn dod yn orfodol yn hytrach nag yn wirfoddol, a phan fydd teitlau cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn cael eu diogelu gan y gyfraith.

- Ers mis Rhagfyr 2025, rydym wedi rhoi cofrestriad i 3,836 o gymdeithion meddygol a 183 o gymdeithion anaesthesia.
- Yn 2026, rydym yn rhagweld y bydd tua 1,000 o gymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia sydd newydd gymhwyso.
- Yn 2025, fe wnaethom lansio'r asesiad cofrestru ar gyfer cydymaith anaesthesia (AARA), sydd wedi'i osod ar lefel cydymaith anaesthesia sydd newydd gymhwyso, ac o fis Rhagfyr 2025 ymlaen, mae 21 o gymdeithion anaesthesia wedi sefyll yr asesiad.
- Byddwn yn cwblhau'r gwaith o gyflawni amrywiaeth o brosesau cofrestru ar gyfer cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia, gan gynnwys tynnu enwau oddi ar y gofrestr a dychwelyd enwau i'r gofrestr.
- Rydym yn datblygu'r model a'r rheolau ar gyfer asesu cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia o bryd i'w gilydd (ailddilysu), ac rydym yn disgwyl ymgynghori arnynt yn 2026.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr i sicrhau bod y cwricwla'n cael eu datblygu a'u cymeradwyo yn ogystal â rhoi prosesau sicrhau ansawdd ar waith.

Ein strategaeth gorfforaethol newydd

Fel rhan o'n gweledigaeth ar gyfer 2030, dros y pum mlynedd nesaf, bydd pedair thema yn siapio ein holl waith, gan ein helpu i gyflawni ein nod o fod yn rheoleiddiwr effeithiol, perthnasol, a thosturiol.



Ein blaenoriaethau ar gyfer 2026

Diwygio rheoleiddio

Yn 2025, fe wnaethom ganolbwyntio ar weithio'n agos gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) wrth iddynt ddrafftio a pharatoi i ymgynghori ar ddeddfwriaeth newydd i ddisodli Deddf Meddygaeth 1983. Eleni, mae ein sylw'n symud tuag at ddatblygu'r fframwaith cyfreithiol, rheolau, polisiâu, a phrosesau a fydd yn cefnogi ein holl swyddogaethau rheoleiddio. Un o'n prif flaenoriaethau yw parhau i ymgysylltu â'r DHSC i ddeall canlyniad eu hymgynghoriad a sut gallai'r ddeddfwriaeth ddrafft newid mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid. Unwaith y bydd y sefyllfa'n gliriach, a'r ddeddfwriaeth yn symud yn nes at ei thaith olaf drwy'r Senedd, gallwn fwrw ymlaen â'n gwaith i ddatblygu'r fframwaith newydd a'r rheolau a'r prosesau cysylltiedig gyda mwy o sicrwydd.

Drwy gydol y gwaith hwn, byddwn yn parhau i ymgysylltu'n gryf â rhanddeiliaid i wneud yn siŵr ein bod yn deall effaith newid deddfwriaethol ar y ffordd rydym yn rheoleiddio. Pan fo'n bosibl, byddwn yn mabwysiadu dull cyd-gynhyrchu o ddylunio prosesau allweddol. Byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer diwygio ac yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid cyn i unrhyw newidiadau ddod i rym.

Bydd diwygio rheoleiddio yn trawsnewid y ffordd rydym yn rheoleiddio, gan roi mwy o hyblygrwydd i ni osod ein rheolau ein hunain ac addasu ein dull gweithredu pan fydd tystiolaeth yn arwain at gyfleoedd i wella. Bydd hyn yn ein helpu i reoleiddio mewn ffordd fwy cefnogol, cynhwysol, a thosturiol, ar yr un pryd â hyrwyddo mwy o gysondeb rhyngom ni a rheoleiddwyr eraill.

Ymgysylltu ar ddyfodol addysg a datblygu gyrfa

Rydym yn parhau â'n gwaith i adolygu'r fframwaith addysg sy'n nodi ein disgwyliadau ar gyfer ansawdd a deilliannau addysg i adlewyrchu anghenion poblogaeth sy'n newid yn y Deyrnas Unedig.

Yn 2026, byddwn yn adeiladu ar yr ymgysylltu a gwblhawyd gennym yn 2025, gyda'r nod o gyrraedd:

- y sefydliadau rydym yn gweithio'n agos gyda nhw
- partneriaid eraill yn y sector
- y bobl a fydd yn elwa o'r newidiadau - meddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia, cleifion, a'r cyhoedd.

Rydym yn bwriadu i hyn fod yn ehangach ac yn helaeth yn 2026, er mwyn rhoi amrywiaeth o safbwyntiau i ni ar newidiadau posibl.

Byddwn yn cydweithio i sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio yn y dyfodol yn helpu i sbarduno gwelliannau ac arloesedd y mae mawr eu hangen yn y sector, gan barhau i ddiogelu'r cyhoedd ar yr un pryd. Wrth wneud hynny, mae angen i'r sector chwarae ei ran i wneud hyn yn llwyddiant.

Canlyniadau rheoleiddio tecach

Byddwn Mae cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'n gwaith fel rheoleiddiwr a chyflogwr — mae'n berthnasol i bopeth rydym yn ei wneud. Rydym wedi gwreiddio amcanion ac ymrwymadau diwygiedig a fydd yn ein helpu i gyflawni yn erbyn y nodau yn ein strategaeth gorfforaethol 2026-2030.

Eleni, ein nod yw adeiladu ar y cynnydd sylweddol rydym wedi'i wneud hyd yma. Bydd parhau i gyflawni ein pedair rhaglen flaenoriaeth strategol ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn 2026 i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, ac yn sicrhau bod tegwch yn parhau i fod yn ganolog i'n gwaith.

- Byddwn yn parhau i sicrhau bod tegwch yn ganolog i'n gwaith drwy ddileu gwahaniaethau mewn atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer cyflogwyr.
- Rydym yn bwrw ymlaen â'r rhaglen waith i roi diwedd ar wahaniaethu, anfantais, ac annhegwch mewn llwybrau addysg a hyfforddiant erbyn 2031.
- Byddwn yn cwblhau'r gwaith o weithredu canfyddiadau adolygiad mewnol o degwch rheoleiddiol 2022. Bydd hyn yn gwella'r mesurau diogelu a'r rheolaethau sydd gennym ar waith ymhellach i sicrhau tegwch a lliniaru yn erbyn rhagfarn yn ein penderfyniadau rheoleiddio uchel eu heffaith.
- Byddwn yn ystyried sut y gallwn adeiladu sylfaen dystiolaeth fwy cadarn ar gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant i lywio sut rydym yn cynllunio ac yn cyflawni gweithgareddau.

Byddwn yn dechrau prosiect i wella sut rydym yn casglu, yn defnyddio, ac yn monitro data amrywiaeth ar draws ein gweithgareddau rheoleiddio.

Wrth i ni gyflawni'r rhaglenni blaenoriaeth hyn yn 2026, byddwn hefyd yn defnyddio'r cyfle hwn i fyfyrion ehangach ar ein dull o bennu blaenoriaethau cydraddoldeb, cynnydd, ac adrodd yn y dyfodol fel rheoleiddiwr ac fel cyflogwr. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried sut rydym yn cydymffurfio'n effeithiol â'r dyletswyddau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant arfaethedig a fydd yn rhan o'r diwygiadau deddfwriaethol.

Trawsnewid ein rhyngweithio â chwsmeriaid

Yn 2026, byddwn yn parhau i foderneiddio'r system gyfathrebu yn ein Canolfan Gyswllt, er mwyn i gwsmeriaid allu ymgysylltu â ni'n ddidrafferth ar draws pob llwyfan. Byddwn yn cyflwyno gwiriadau diogelwch awtomatig i ddarparu profiad symlach i gwsmeriaid, gan dynhau ein prosesau archwiliadau diogelwch ymhellach.

Statws gweithiwr cydymaith

Yn 2026, byddwn yn cwblhau'r gwaith datblygu system sydd ei angen i wneud taliadau gwyliau a chyfraniadau pensiwn yn awtomatig pryd bynnag y telir ffioedd i gymdeithion sydd â statws 'gweithiwr'. Bydd hyn yn disodli trefniadau talu â llaw sydd wedi bod ar waith yn ystod ein cyfnod pontio o Agresso (ein system gyllid, Adnoddau Dynol, a chyflogres bresennol) i'n systemau newydd.

Ein blaenoriaethau o ran pobl

Mae ein pobl wrth galon popeth a wnawn. Byddwn yn parhau i fod yn gyflogwr o ddewis drwy fuddsoddi mewn llesiant, datblygiad, a chydabyddiaeth - lle mae ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi, a'u hysbrydoli i wneud eu gorau. Byddwn yn parhau i ddenu a chadw talent amrywiol, gan gynnal cynnig cystadleuol ar gyfer recriwtiaid newydd a staff presennol.

Byddwn yn sicrhau bod ein harferion cyflogaeth o ran tâl, perfformiad, dilyniant, ac ymgysylltu yn deg ac yn gyson. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn cynnyrch newydd ar gyfer ein system pobl, cyllid, cyflogres, bilio tanysgrifiadau, a phrosesau hunanwasanaeth cyflogeion.

Ein cyfrifoldebau fel cyflogwr

Fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn sefydliad cyfrifol ac i gryfhau ein system rheoli amgylcheddol bresennol, byddwn yn monitro ein hallyriadau carbon. Ein dyddiad targed yw 2040 i ddod yn sefydliad carbon sero net.

Byddwn yn gweithio gyda nifer o brifysgolion i gynnal digwyddiadau ehangu cyfranogiad ar gyfer myfyrwyr meddygol blwyddyn gyntaf sydd o gefndiroedd difreintiedig.

Byddwn yn gweithio gyda'r rhwydwaith Busnes yn y Gymuned i ddarparu hyfforddiant i'r rhai sydd wedi cofrestru ar eu rhaglen 'yn ôl i'r gwaith'.

E-bost: gmc@gmc-uk.org

Gwefan: gmc-uk.org

Ffôn: **0161 923 6602**

Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **ffoniwch 18001** yna **0161 923 6602** i

ddefnyddio'r gwasanaeth Cyfleu Testun.

Ymunwch â'r sgwrs

 [instagram.com/gmcuk/](https://www.instagram.com/gmcuk/)

 [facebook.com/gmcuk](https://www.facebook.com/gmcuk)

 [linkd.in/gmcuk](https://www.linkedin.com/company/gmcuk)

 [youtube.com/gmcuktv](https://www.youtube.com/gmcuktv)

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu e-bostiwch ni ar gmc@gmc-uk.org.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hyn achosi oedi ychwanegol.

Cyhoeddwyd Ionawr 2026

© 2026 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint Cyngor Meddygol Cyffredinol dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae Cyngor Meddygol Cyffredinol yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

Cod: GMC/BPW25/0126